



PARTNER MAPIAU
LLWYBRAU'R DU

PARTNER MAPIAU
LLWYBRAU'R ABERTAWE



SWANSEA
ARENA
ABERTAWE

MAP LLWYBR ABERTAWE

13 AWST - 31 HYDREF 2022

Ewch ar Siwrnai Ddarganfod drwy Abertawe i archwilio'r hanes a rennir gennym a sut y gallwn ni wneud cyfiawnder hiliol yn realiti.





SIWRNAI DDARGANFOD

Er mwyn creu byd sy'n ymfalchïo yn urddas pawb, mae'n rhaid i ni gydnabod gwirionedd syml: **Ni yw ein hanes.**

Yr haf hwn, mae The World Reimagined yn eich gwahodd ar daith ddarganfod er mwyn trawsnewid sut rydym yn deall y Fasnach Drawsiwerydd mewn Caethweision Affricanaidd a'i effaith ar bob un ohonom, fel y gallwn wneud cyfiawnder hiliol yn realiti.

Nid 'Hanes Du' yw hwn, ond hanes pob un ohonom.

Mae'r map hwn yn dangos i chi ble y gallwch chi ddod o hyd i'n llwybr o Gerfluniau Glôb. Maen nhw wedi'u creu gan artistiaid gyda chymysgedd anhygoel o ddulliau ac arddulliau, sy'n dod â themâu o'r Fam Affrica i Daliwn i Godi ac Ehangu'r Enaid, yn fyw.



Mae dilyn y llwybr yn **RHAD AC AM DDIM.**

Wedi i chi gael eich ysbrydoli gan y gwaith celf bywiog, heriol a llawen, gallwch hefyd archwilio ein Casgliad Taith Ddarganfod ar-lein er mwyn dysgu mwy am ein hanes, ein presennol a'n dyfodol.

Ar y wefan, byddwch hefyd yn gallu:

- Gweld y glôbs ysgol ar ein mapiau llwybrau ar-lein, sydd wedi'u creu gan fwy na 170 o ysgolion ledled y DU.
- Cysylltu â digwyddiadau a gweithgareddau'r sefydliadau anhygoel sy'n dod ag Abertawe'n fyw gyda'r gwaith o wneud cyfiawnder hiliol yn realiti.

Gyda'n gilydd, gallwn greu dyfodol lle gall pob un ohonom ddweu ddweud: **Rwy'n cael fy ngweld.**



DARGANFYDDWCH FWY GYDA'CH FFÔN

Defnyddiwch gamera eich ffôn i sganio cod QR unigryw pob glôb. Bydd yn mynd â chi i borth The World Reimagined, lle gallwch chi:


Darganfod mwy am yr artist a'u dyluniad.

Archwilio ein casgliad hanes Taith Ddarganfod, unigryw.

Gweld y llwybr cyfan.

Cysylltu gyda digwyddiadau a newyddion lleol.

www.theworldreimagined.org



ARCHWILWCH Y LLWYBR



Thema: Y Fam Affrica
Arlunydd: Mfikela Jean Samuel
Partner: Clwb Pêl-droed Abertawe
Lleoliad: Castell Abertawe



Thema: Realiti Bod yn Gaethwas
Arlunydd: Laura Bolton
Partner: Morgans Hotel Swansea
Lleoliad: Canolfan Dylan Thomas



Thema: Etifeddiaeth wedi'i Chipio: Aileni Cenedl
Arlunydd: Abbi Bayliss
Partner: Prifysgol Abertawe
Lleoliad: Theatr Dylan Thomas



Thema: Diddymu a Rhyddfrenio
Arlunydd: GE
Partner: The World Reimagined
Lleoliad: Arena Abertawe



Thema: Triogl Cymhleth
Arlunydd: Hazel Blue
Partner: BID Abertawe
Lleoliad: Sgwâr y Santes Fair



Thema: Adleisiau'r Presennol
Arlunydd: Joshua Donkor
Partner: Bloomberg
Lleoliad: Canolfan Siopa'r Quadrant



Thema: Daliwn i Godi
Arlunydd: Joanna Cohn
Partner: Morganstone
Lleoliad: Stryd Nelson



Thema: Ehangu'r Enaid
Arlunydd: Carol Sorhaindo
Partner: Clwb Pêl-droed Abertawe
Lleoliad: Ffordd y Dywysoges



Thema: Ailddychmygu'r Dyfodol
Arlunydd: Parys Gardener
Partner: Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
Lleoliad: Grove Place




Thema: Glôb Gymunedol Abertawe
Arlunydd: Kyle Legall
Partner: Sky
Lleoliad: Oriel Gelf Glynn Vivian

DARGANFOD | ARCHWILIO | GWELD | CYSYLLTU
 Am fwy o wybodaeth ewch i www.theworldreimagined.org

#TheWorldReimagined
 @TWR_--org



Sganwch fi!



PARTNER CYFLWYNO SWYDDOGOL



PARTNER-DDINAS GROESAWU



Cyngor **Abertawe**
Swansea Council

CEFNOGIR GAN



Supported using public funding by

**ARTS COUNCIL
ENGLAND**

Bloomberg



Made possible with

**Heritage
Fund**



**Esmée
Fairbairn**
FOUNDATION

PARTNER DARPARU



Gweler ein partneriaid ar
www.theworldreimagined.org